

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Stori 1 Iesu'n galw Pedr



DARLLENWCH
Mathew 4: 18-22

Mae'r stori hon am:
**Dilyn yr
Arglwydd Iesu**

Roedd yr Arglwydd Iesu am gael dynion da i'w helpu.

Un diwrnod fe welodd E ddau bysgotwr.


Enw un oedd Pedr a'r llall oedd ei frawd Andreas.

Beth oedd enwau y ddau bysgotwr?

P _ _ _ _

ac

A _ _ _ _ _



Lliwiwch y darlun hwn o Iesu a'r bysgotwyr.

10

Fe alwodd Iesu arnyn nhw i'w ddilyn Ef. Ar unwaith, dyma nhw'n gadael y rhwydau a dilyn yr Arglwydd Iesu. Heddiw mae Ef am i fechgyn a merched Ei ddilyn Ef. Ydych chi'n barod i fod yn ufudd Iddo?



DARLLENWCH
Luc 5: 1-11


Mae'r stori am:
**Pedr yn dysgu ei
fod yn bechadur**

Stori 2 Iesu'n helpu Pedr

Un diwrnod dyma'r
Arglwydd Iesu'n defnyddio
cwch Pedr. Fel yr oedd E'n
eistedd ynddo, roedd E'n
dysgu'r bobl am Dduw. Ar ôl
iddo orffen, dyma Fe'n
dweud wrth Pedr am fynd i
bysgota.

Fe wnaeth Pedr fel y
gofynnodd Iesu, ac fe
ddaliodd gymaint o bysgod
nes i'w rwyd ddechrau torri.
Roedd Pedr wedi synnu!

Nawr roedd e'n siwr fod Iesu'n Berson arbennig iawn.



Yn ei galon roedd Pedr yn gwybod ei fod yn ddyn pechadurus. Nid
oedd e'n haeddu yr helpa fawr o bysgod a roddodd Iesu iddo fe.

Pwy oedd yn arbennig iawn? _ _ _ _ _

Pwy oedd yn bechadurus? _ _ _ _ _

Druan o Pedr! Roedd e'n teimlo mor ddrwg nes iddo syrthio wrth
liniau Iesu.

Lliwiwch a dysgwch yr adnod hon.

"Arglwydd... dyn
pechadurus wyf fi."

Ydych chi'n gwybod eich bod chi'n bechadur hefyd?
Ydych chi wedi gofyn Iddo Ef faddau i chi?



DARLLENWCH
Mathew 8: 23-27


Mae'r stori hon am:

**Grym yr
Arglwydd Iesu**

Stori 3 Iesu'n tawelu'r storm

Un diwrnod fe hwylodd yr Arglwydd Iesu a'i ddisgyblion ar draws Llyn Galilea.

Yn sydyn dyma storm fawr yn codi! Roedd y gwynt mor gryf nes i'r tonnau ddod dros y cwch. Ond roedd yr Arglwydd Iesu'n cysgu'n drwm.



Roedd cymaint o ofn ar y disgyblion nes iddyn nhw fynd i'w ddeffro. Dyma nhw'n gweiddi, "Arglwydd, achub ni! Mae hi ar ben arnon ni!"

Fe ddywedodd yr Arglwydd Iesu wrthyn nhw nad oedd angen iddyn nhw ofni am ei fod Ef gyda nhw yn y cwch. Fe ddywedodd Ef wrthyn nhw nad oedd ganddyn nhw lawer o ffydd. Fe ddylen nhw fod wedi credu y byddai Ef yn dod â nhw drwy'r storm.

Fe safodd yn y cwch a gwaeddodd yn uchel,

"Bydd ddistaw!
Bydd dawel!"

Fe beidiodd y gwynt ac fe aeth y tonnau'n dawel.

Pwy oedd gyda Iesu yn y cwch?

Ei _____ .

Dewch i ni gael diolch i Dduw heddiw mor fawr yw Ei Fab, yr Arglwydd Iesu.



DARLLENWCH
Mathew 14: 22-33

Mae'r stori hon am:
Gweddi fer Pedr

Stori 4 Iesu yn achub Pedr

Un noson, pan oedd y disgyblion yn croesi Llyn Galilea, fe gawson nhw eu dal mewn storm ddrwg.


Beth oedd enw'r llyn?

L I _ _ _ **G** _ _ _ _ _ _ _ _

Doedd yr Arglwydd Iesu ddim gyda nhw. Roedd Ef wedi mynd i fyny'r mynydd i weddio. Ganol nos roedd y disgyblion yn meddwl eu bod nhw'n gweld ysbryd! Roedd ofn ofnadwy arny'n nhw.

Ond nid ysbryd oedd e! Yr Arglwydd Iesu oedd Ef, wedi dod i'w helpu. Roedd E'n cerdded ar y dŵr!

Fe aeth Pedr allan o'r cwch a dechrau cerdded at Iesu. Ond yn sydyn pan welodd y tonnau mawr dyma fe'n dechrau suddo.



Lliwiwch y geiriau a waeddodd Pedr ar Iesu.

"Arglwydd, achub fi!"

10

Yn syth dyma'r Arglwydd Iesu yn ei ddal, ac fe gafodd Pedr ei achub rhag boddi.

Rydyn ni'n cael ein hachub rhag pechod wrth ymddiried yn yr Arglwydd Iesu.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120